

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 9 Ionawr, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Yr Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Yr Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Ball, I.R. Buckley, C.A. Cave, A.M. Collins, C.M. Cowpe, R. Fisher, E.J. Goodjohn, J. Lynch-Wilson a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.M. Norman.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. DIWEDDARIAD AR FWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg, a'r cynnydd a wnaed, yn enwedig y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar gyfer pobl leol.

(2) DERBYN diweddariadau blynyddol pellach ar waith y Bwrdd.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad diweddar i godi ymwybyddiaeth o waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg yr oedd Cyngor Bro Morgannwg yn brif bartner iddo.
- (2) Sicrhau bod yr Aelodau'n parhau'n hysbys ac yn ymgysylltu â gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

EITEM AGENDA 5. CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2024-25 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID nodi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft, fel y'i hatodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad Cabinet y cyfeiriwyd ato.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad Cabinet atodedig, er mwyn sicrhau bod pob Pwyllgor Craffu yn cael y cyfle i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft a rhoi adborth fel rhan o'r rhaglen ymgynghori.

EITEM AGENDA 6. RHANBARTHOLI DATBLYGU CHWARAEON (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r cyfeirnod a'r adroddiad Cabinet atodol.
- (2) CYTUNO ar yr argymhelliad bod y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De, fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol Chwaraeon a Chwarae sydd eisoes wedi'i sefydlu ar Raglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Fro Morgannwg ddod yn rhan o fenter Datblygu Chwaraeon Canolbarth y De fel Partner Strategol a hysbysu'r Pwyllgor am y datblygiad yn ogystal â chaniatáu ar gyfer unrhyw sylwadau. i'w hystyried cyn ymuno â'r bartneriaeth.
- (2) Monitro perfformiad Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De o safbwynt Cyngor Bro Morgannwg a bod â'r gallu i rannu unrhyw wybodaeth briodol gyda'r Cabinet.

EITEM AGENDA 7. OLRHAIN ARGYMHELLION SGRIWTINI O'R 3YDD
CHWARTER A'R RHESTR RHAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A yr adroddiad.
- (2) CYMERADWYO'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.